Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc – Comisiwn Russell
Canllawiau

Nod Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc – Comisiwn Russell

Nod cynllun Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc – Comisiwn Russell yw cefnogi ystod o weithgareddau a phrosiectau gwirfoddoli bach, a gynhelir ac a arweinir gan bobl ifanc, â'r ceisiadau hynny'n cael eu dewis a'u hargymell gan banel o bobl ifanc 16-25 oed.

Bydd pob canolfan wirfoddoli'n gyfrifol am rannu'r arian drwy gyfrwng cynghorydd gwirfoddolwyr ifanc, a fydd yn gweithio â phanel o bobl ifanc.

Mae Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc – Comisiwn Russell hefyd yn anelu at roi blaenoriaeth i ddarparu cyfleoedd gydag ystod eang o bobl ifanc (16—25 oed), ac ar eu cyfer, ac yn benodol:

- Pobl ifanc o gymunedau difreintiedig: yn benodol o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig
- Pobl ifanc a chanddynt anableddau corfforol neu anableddau dysgu

Faint o grant ellir ei wobrwyo?

Gellir ymgeisio am grant hyd at uchafswm o £500 i gefnogi gwirfoddoli neu sefydlu gweithgaredd gwirfoddol. Fe ellir mewn amgylchiadau arbennig iawn gysidro cais hyd at £1000, ond fe fydd angen dangos bod nifer o bobl ifanc yn elwa o'r cynllun, neu ei fod yn sefydlu cyfle gwirfoddoli parhaol.

Pwy fedr wneud cais am gyllid?

Os yw mudiadau'n cael nawdd:

- dylai bod ganddynt gyfansoddiad cyfreithiol gyda dogfen lywodraethu wedi'i llofnodi a'i mabwysiadu; (rhaid i amcanion y prosiect gydweddu â'r cyfansoddiad);
- rhaid i'r prosiect fod wedi ei leoli yn Sir Ddinbych. Os yw'r grŵp yn weithgar tu allan i Wynedd mae'n rhaid i'r prosiect gael ei redeg yng Ngwynedd
- dylai eu bod yn annibynnol ar sectorau'r llywodraeth a sectorau preifat;
- dylai bod gan y mudiad gyfrif banc, yn enw'r mudiad, sy'n gofyn am lofnod o leiaf dau berson

Fodd bynnag, mae'n debygol y ceir llawer o geisiadau gan bobl ifanc o grwpiau di-gyfansoddiad. Mewn achosion o'r fath, efallai y byddai'r ganolfan wirfoddoli'n dymuno talu anfonebau'n uniongyrchol, neu dalu'r grant i fudiad cymwys a fydd yn eu cefnogi.

Bydd angen i bob prosiect gydymffurfio â thermau ac amodau Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc – Comisiwn Russell. Mewn rhai amgylchiadau bydd amodau arbennig yn cael eu gosod ar brosiect.

Sut i wneud Cais?

Am becyn cais a mwy o wybodaeth cysylltwch â Gerry Frobisher, Cyngor Gwasanaethau Sir Ddinbych ar 01745 369973 neu gerryfrobisher@btconnect.com

Fe fydd yn ofynnol i'r arian gael ei wario cyn diwedd Mawrth 2011.

Beth ddylid eu cynnwys?

1. Ffurflen gais wedi ei chwblhau a'i arwyddo gan ddau aelod o'r grŵp.

2. Copi o gyfansoddiad eich grwp / sefydliadau cefnogol.

3. Copi o ddatganiad banc diweddar eich grwp / sefydliadau cefnogol.

4. Os yn berthnasol ddyfynbrisiau/amcangyfrifon a/neu dystiolaeth arall o gostau (e.e. copi o dudalennau catalog)

5. Rhifau ac enwau'r unigolion a fydd yn cymeryd rhan yn unrhyw weithgaredd a gyllidir.

6. Rhaid i grwpiau newydd ddarparu rhestr o enwau swyddogion ac aelodau o bwyllgor y grŵp(os yn berthnasol).